



PRIFYSGOL
BANGOR
UNIVERSITY

Polisi a Chanllawiau Cydraddoldeb Trawsryweddol i Fyfyrywyr

Swyddog Polisi	Uwch Swyddog sy'n Gyfrifol	Cymeradwywyd gan a dyddiad
Swyddog Cydraddoldeb ac Amrywiaeth Myfyrywyr	Cyfarwyddwr Gwasanaethau Myfyrywyr	Grŵp Tasg Cydraddoldeb ac Amrywiaeth
Yn disodli	Adolygwyd Ddiwethaf	Pwrpas y newid a disgrifiad ohono
Amherthnasol	Hydref 2022	Adolygiad Cyffredinol
Asesiad Effaith Cydraddoldeb	Asesiad Cynaliadwyedd	Asesiad Iaith Gymraeg
Cwblhawyd	Cwblhawyd	Cwblhawyd

Prifysgol Bangor

Polisi a Chanllawiau Cydraddoldeb Trawsryweddol i Fyfyrrwyr

1. Diffiniadau

Rhywedd

Mae rhywedd yn cyfeirio at y gwahaniaethau diwylliannol a chymdeithasol rhwng dynion a merched. Mae'n cynnwys tair agwedd gysylltiedig: **rolau rhywedd sy'n cael eu llunio gan gymdeithas**, normau ac ymddygiadau sydd yn seiliedig yn sylfaenol ar y rhyw a bennwyd adeg genedigaeth; **hunaniaeth rywedd**, sef canfyddiad mewnol rhywun o'u hunaniaeth; **mynegiant rhywedd**, sef y ffordd y mae rhywun yn byw mewn cymdeithas ac yn rhyngweithio ag eraill.

Anneuaidd (non-binary)

Defnyddir anneuaidd i gyfeirio at rywun sydd â hunaniaeth rywedd sydd rhwng neu y tu hwnt i'r ddau gategori 'dyn' a 'dynes', rhywun sy'n amrywio rhwng 'dyn' a 'dynes', neu rywun nad yw'n meddu ar rywedd, naill ai'n barhaol neu rywfaint o'r amser.

Trawryweddol

Mae trawsryweddol yn derm ymbarél cynhwysol ar gyfer pobl â hunaniaeth rywedd a/neu fynegiant rhywedd sy'n gwahaniaethu o'r rhyw (gwryw neu fenyw) a bennwyd iddynt adeg eu geni. Gall y term gynnwys, ond nid yw'n gyfyngedig i ddynion a merched trawsryweddol, pobl anneuaidd a phobl â rôl ddeuol. Ni fydd pawb a gynhwysir gan y term yn cysylltu ag ef.

Trawsnewid

Trawsnewid yw'r broses pan fo rhywun yn newid ei rôl gymdeithasol i gydweddu â'i hunaniaeth rywedd. Gallai hyn gynnwys dweud wrth ffrindiau a theulu, newid enw ac i rai pobl gall hyn gynnwys cymorth meddygol megis therapi amnewid hormonau a llawdriniaeth.

2. Datganiad Polisi a Diben

Mae Prifysgol Bangor wedi ymrwymo i ddarparu cymuned gynhwysol a chroesawgar lle gall pob myfyriwr gyflawni eu llawn botensial a chael eu parchu fel unigolion. Mae hyn yn cynnwys cynnig cefnogaeth a dealltwriaeth i unigolion sy'n dymuno cymryd, neu sydd yn cymryd camau i gyflwyno eu hunain mewn rhywedd sy'n wahanol i'w rhyw adeg eu geni neu mewn ffordd rhyweddhylifol.

Mae Prifysgol Bangor yn cydnabod y gall y cyfnod o drawsnewid fod yn gyfnod anodd i unigolion ac mae'n dymuno bod yn gefnogol trwy sicrhau bod polisiau ac arferion cynorthwyol ar waith. Rydym yn llwyr gydnabod ein cyfrifoldeb cyfreithiol i ddiogelu hawliau pobl drawsryweddol ac i sicrhau nad oes unrhyw unigolyn yn agored i wahaniaethu o ganlyniad i'r rhywedd y mae'n cyflwyno ei hun ynddo.

Diben y polisi hwn yw cynnig llwybr hwylus a chllir i fyfyrwyr roi gwybod i'r brifysgol eu bod yn trawsnewid neu'n dymuno trawsnewid. Mae'r polisi hwn hefyd yn cynnig arweiniad i aelodau staff er mwyn iddynt allu cynnig cymorth effeithiol a phrosesau effeithlon i fyfyrwr sy'n trawsnewid.

3. Cynnwys y Polisi

Mae'r polisi hwn yn berthnasol i bob myfyriwr sydd wedi cofrestru yn y brifysgol ar hyn o bryd, ac yn arbennig i'r rhai hynny sy'n dymuno cyflwyno eu hunain mewn rhywedd sy'n wahanol i'w rhyw adeg eu geni neu mewn ffordd rhyweddhylifol. Mae'r polisi hefyd yn berthnasol i bob aelod staff, yn arbennig y rhai sy'n ymwneud â darparu cefnogaeth i'r myfyrwyr hynny neu'n ymateb i fyfyrwr sy'n rhoi gwybod i'r brifysgol am drawsnewid. *Mae yna bolisi ar wahân i aelodau staff, y Polisi Cydraddoldeb Trawsryweddol, sy'n berthnasol i bob aelod staff, yn arbennig y rhai hynny sy'n dymuno cyflwyno eu hunain mewn rhywedd sy'n wahanol i'w rhyw adeg eu geni neu mewn ffordd rhyweddhylifol.*

Mae'r polisi hefyd yn berthnasol i Undeb y Myfyrwyr, corff annibynnol sy'n cynnal ac yn rheoli ei faterion ei hun yn unol â'i gyfansoddiad ei hun.

4. Canllawiau i Fyfrwyr

4.1 Cofrestru am y tro cyntaf, Gwiriadau Adnabod a Gwiriadau Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (DBS).

Mae llywodraeth y Deyrnas Unedig yn nodi'r math o ddogfennau adnabod sy'n ofynnol i fyfyrwyr eu cyflwyno wrth gofrestru am y tro cyntaf yn y brifysgol. Y dogfennau hynny yw pasbort, fisa neu dystysgrif geni, ynghyd â mathau eraill o ddogfennau adnabod. Os ydych yn dymuno cael eich adnabod wrth enw gwahanol i'r hyn sydd ar eich dogfennau ar hyn o bryd, gallwch ddweud hynny wrthym wrth gofrestru am y tro cyntaf.

Os ydych angen preifatrwydd am reswm sy'n gysylltiedig â'ch hunaniaeth rywedd, gallwch ofyn am apwyntiad preifat gyda Gweinyddwr Myfyrwyr i ddangos eich dogfennau adnabod. Cysylltwch â'r Swyddog Cydraddoldeb ac Amrywiaeth Myfyrwyr i drefnu hyn inclusive@bangor.ac.uk

Efallai y bydd yn ofynnol i rai myfyrwyr gael eu gwirio gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (DBS) cyn dechrau ar eu cwrs neu yn ystod eu cwrs, os byddant yn dod i gysylltiad â phobl sy'n agored i niwed neu blant. Os gofynnir i chi gwblhau gwiriad gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd, ac nad ydych yn dymuno i'ch rhyw adeg eich geni neu'ch statws trawsryweddol gael ei ddatgelu i'r brifysgol neu ar eich tystysgrif gwirio gan y Gwasanaeth, gallwch ffonio neu anfon e-bost at Dîm Ceisiadau Sensitif y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd ar 0151 676 1452 neu sensitive@dbs.gov.uk cyn cyflwyno'ch cais. Mae gan y tîm brofiad o ymdrin ag achosion sensitif a byddant yn eich cynghori am y broses a'r hyn y mae angen i chi ei wneud.

4.2 Rhoi gwybod i'r brifysgol fel myfyriwr presennol

Os yw myfyriwr yn hunan-ddiffinio fel rhywun trawsryweddol, yn trawsnewid neu'n dymuno trawsnewid, efallai y byddant yn dewis rhoi gwybod i'r brifysgol i gael cefnogaeth a/neu newid eu cofnodion personol. Rydym yn annog ac yn croesawu myfyrwyr sy'n dymuno rhoi gwybod i ni am drawsnewid, er mwyn i ni allu eu cefnogi cystal â phosibl.

Gall myfyrwyr gysylltu yn y lle cyntaf â'r Swyddog Cydraddoldeb ac Amrywiaeth Myfyrwyr neu a'u Tiwtor Personol i gael trafodaeth gyfrinachol ynglŷn â sut y maent yn dymuno ymdrin â'r trawsnewid.

Efallai y bydd o gymorth iddynt drefnu cyfarfod lle gallant drafod a chytuno ar broses benodol maent yn teimlo'n gyfforddus â hi, sy'n amlinellu pwy ddylai gael gwybod beth a phryd, a sut y dylasai hynny ddigwydd.

Gallai'r canlynol fod ymysg y pwyntiau y byddai myfyriwr yn dymuno eu hystyried:

- Pa newidiadau y dymunant eu gwneud i'w cofnodion.
- Pryd yn union maent yn dymuno i'w cofnodion gael eu newid.
- A fyddant o bosib angen unrhyw amser i ffwrdd a beth allai'r effeithiau fod ar eu hastudiaethau.
- P'un a ydynt am roi gwybod i staff a myfyrwyr eraill neu a fyddai'n well ganddynt i hynny gael ei wneud ar eu rhan.

4.3 Diweddaru Cofnodion Myfyrwyr

Efallai y bydd myfyriwr yn dymuno newid agweddau ar ei ch/gofnod prifysgol, i adlewyrchu hunaniaeth rywedd newydd. Gallai hynny gynnwys newid y cofnod o'u rhywedd, newid eu henw (neu roi gwybod i'r brifysgol am enw dewisol) a newid eu teitl. (Mae ein system gofnodion yn cynnwys yr opsiwn 'Mx' fel teitl i unrhyw un nad yw'n hunan-ddiffinio fel 'Mr'/'Miss'/'Mrs' etc.)

Nid oes angen i fyfyriwr newid ei enw yn gyfreithiol er mwyn gwneud newidiadau i'w gofnod prifysgol ond dylai ddeall ei bod yn ofynnol dan y gyfraith i newid enw'n gyfreithiol cyn derbyn tystysgrif gradd yn ei enw newydd, a bod angen dangos tystiolaeth o hynny. Pan fo myfyriwr yn newid ei enw ar ei gofnod prifysgol, dylid ei gynghori i hefyd newid ei enw gyda'i fanc, cyllidwr, CThEM ac UCAS er mwyn osgoi cymhlethdodau posibl a allai ddeillio o gael gwahanol enwau.

Er mwyn newid unrhyw agwedd ar ei gofnod prifysgol, rhaid i'r myfyriwr roi gwybod i ni'n ysgrifenedig neu drwy lenwi'r 'Ffurflen Hysbysu Newid Enw' (sydd ar gael i'w llenwi yng [Nghanolfan Ceisiadau FyMangor](#)) a nodi'r dyddiad y daw'r newidiadau'n weithredol. Bydd ceisiadau i newid enw a rhywedd ar gofnodion y brifysgol yn cael eu trin mor brydlon â phosibl.

4.4 Graddio

Yn ôl y gyfraith, dim ond yn enw cyfreithiol myfyriwr y gall y brifysgol gyhoeddi tystysgrifau gradd. Os ydych wedi rhoi gwybod i'r brifysgol eich bod wedi newid eich enw oherwydd eich bod yn trawsnewid neu oherwydd eich statws trawsryweddol, a'ch bod yn dymuno i'r enw newydd ymddangos ar eich tystysgrif gradd, bydd yn rhaid i chi roi gwybod i'r brifysgol a darparu tystiolaeth o'ch enw newydd. Dylai myfyrwyr ddeall y bydd eu henw cyfreithiol yn cael ei gynnwys yn y Rhaglen Raddio ac y caiff ei ddarllen o'r llwyfan fel rhan o'r seremoni raddio oni bai eu bod yn gofyn i'r brifysgol beidio â gwneud hynny. Gallwch gysylltu â'r Swyddog Cydraddoldeb ac Amrywiaeth Myfyrwyr am fwy o gyngor ynglŷn â hyn ac i roi gwybod am eich dymuniadau cyn y seremoni raddio. E-bost inclusive@bangor.ac.uk

4.5 Cyfrinachedd

Mae Prifysgol Bangor yn deall pwysigrwydd cyfrinachedd yng nghyswllt peidio â datgelu enw a rhywedd blaenorol, na thrawsnewid i drydydd parti. Gall myfyriwr drafod gyda'r Swyddog

Cydraddoldeb ac Amrywiaeth Myfyrwyr neu â'u Tiwtor Personol a ydynt yn dymuno i fyfyrwyr a staff eraill wybod am y trawsnewid.

4.6 Aelodaeth ag Undeb Myfyrwyr Prifysgol Bangor

Ni fydd y brifysgol fel arfer yn hysbysu Undeb (Undeb y Myfyrwyr) am achos o fyfyrwr unigol yn trawsnewid ond caiff unrhyw newidiadau a wneir i gofnod personol myfyriwr a gedwir gan y brifysgol eu diweddarau'n awtomatig ar system gofnodion Undeb.

5. Canllawiau i Staff

5.1 Cael gwybod am drawsnewid neu fwriad i drawsnewid

Yn y rhan fwyaf o achosion bydd myfyriwr yn mynd at ei Diwtor Personol neu at y Swyddog Cydraddoldeb ac Amrywiaeth Myfyrwyr i roi gwybod iddynt eu bod yn trawsnewid neu'n dymuno trawsnewid. Mae'n bwysig cymryd amser i wrando'n ofalus ar y myfyriwr er mwyn sicrhau y cânt gefnogaeth lawn.

Dylai'r aelod staff holi'r myfyriwr ynglŷn â'u henw dewisol a'u rhagenwau dewisol a mabwysiadu'r defnydd ohonynt o'r pwynt pan fo'r myfyriwr yn dymuno i hynny ddigwydd.

Dylid cynghori'r myfyriwr i hysbysu'r brifysgol yn ysgrifenedig am unrhyw newidiadau y dymunant eu gwneud i'w cofnod myfyriwr gan ddilyn y drefn a amlinellir yn 4.2.

Os yw'r aelod staff yn Diwtor Personol, gall fod yn ddefnyddiol cynnal trafodaeth gyda'r myfyriwr ynglŷn ag unrhyw effeithiau tebygol ar eu hastudiaethau a allai ddeillio o'u trawsnewid. Er enghraifft, efallai y bydd angen amser i ffwrdd arnynt i gael llawdriniaeth. Archwilir hyn ymhellach yn adran 6.2.

Dylid annog y myfyriwr i ystyried a yw'n dymuno i gyd-fyfyrwyr ac aelodau staff gael gwybod am ei drawsnewid, neu am ei fwriad i drawsnewid. Yn dibynnu ar ei d/dymuniad, gall hynny gael ei wneud ar ran y myfyriwr gan gynrychiolydd a ddewisir ganddynt. Dewis y myfyriwr yw hyn a dim ond gyda'u cydweithrediad llawn y dylai ddigwydd.

Ni ddylai aelod staff ddweud wrth eraill am statws trawsryweddol myfyriwr heb eu caniatâd o dan unrhyw amgylchiadau. Dylai'r aelod staff sicrhau eglurder o'r cychwyn cyntaf ynglŷn â ph'un ai y bydd staff eraill, ac yn dilyn hynny myfyrwyr, yn cael gwybod.

5.2 Canllawiau Parch Trawsryweddol

Gall y canllawiau canlynol am sut i ymateb i bobl sy'n trawsnewid fod yn ddefnyddiol i staff a chyd-fyfyrwyr:

- Mae'n bwysig trin pobl fel y byddant yn cyflwyno eu hunain.
- Defnyddiwch yr enw a'r rhagenwau y mae'r myfyriwr yn gofyn i chi eu defnyddio. Os ydych yn ansicr, gofynnwch i'r myfyriwr am eglurhad.
- Deallwch fod pobl drawsryweddol yn aml yn sensitif ynglŷn â datgelu gwybodaeth am eu gorffennol, yn enwedig os ydynt yn credu y gallai hynny effeithio ar sut y'u canfyddir ar hyn o bryd.
- Peidiwch â dweud wrth eraill am statws trawsryweddol myfyriwr oni bai eu bod wedi rhoi eu caniatâd.

5.3 Newid Cofnodion Myfyrwyr

Gofynnir i fyfyrwyr hysbysu'r Brifysgol yn ysgrifenedig (gweler 4.2), os ydynt yn dymuno newid eu henw a'u rhywedd fel y mae'n ymddangos ar eu cofnod myfyriwr, ac mae hyn yn ddigonol i newid y cofnodion.

Nid yw'n briodol gofyn am dystiolaeth o drawsnewid meddygol neu ddisgwyl nes bod gan fyfyriwr dystysgrif geni newydd neu Dystysgrif Cydnabod Rhywedd (GRC) cyn gwneud y newidiadau.

Mwy na thebyg bydd newid enw o'r hyn a gofrestrwyd yn wreiddiol ar ran y myfyriwr yn golygu ei bod yn ofynnol newid cofnodion sefydliadau eraill, e.e. UCAS, cyllidwyr, banciau a CThEM i osgoi dryswch, a dylid egluro hyn i'r myfyriwr.

Er mwyn derbyn tystysgrif gradd yn eu henw newydd fodd bynnag, bydd angen i fyfyrwyr newid eu henw'n ffurfiol a dangos tystiolaeth o newid enw ffurfiol (e.e. datganiad statudol o newid enw neu weithred newid enw).

Gall pobl drawsryweddol sydd â Thystysgrif Cydnabod Rhywedd (GRC) wneud cais i unrhyw gyfeiriad at eu rhywedd blaenorol a'u henw blaenorol gael ei ddileu'n llwyr o'u cofnod prifysgol. Rhaid felly newid neu ddisodli pob cofnod papur ac electronig sy'n crybwyll enw a rhywedd blaenorol. Bydd hyd yn oed angen ail-lunio llythyr cynnig gwreiddiol y myfyriwr fel nad oes dim yn aros ar ffeil a fyddai'n datgelu i drydydd person bod newid wedi cymryd lle.

5.4 Rheoli Adwaith Myfyrwyr a Staff

Pan fydd pobl yn trawsnewid, neu'n dod allan yn drawsryweddol neu'n anneauidd neu'n dechrau cyflwyno eu hunain mewn rhywedd sy'n wahanol i'r un a bennwyd adeg eu geni, neu mewn ffordd rhyweddhyllifol, gall hynny achosi heriau i rai sydd â syniadau sefydlog am rywedd. Mae'n hanfodol bod staff, yn enwedig staff ysgol y myfyriwr, yn gefnogol. Dylai staff roi arweiniad i'w myfyrwyr ar greu amgylchedd cynhwysol i bob unigolyn trawsryweddol a gallai fod yn ddefnyddiol mynegi ymrwymiad y Brifysgol i gydraddoldeb a chyfeirio at ei [pholisiau ar aflonyddu](#). Gallai hefyd fod yn briodol i atgoffa myfyrwyr bod disgwyl iddynt gyfarch pob unigolyn trawsryweddol wrth eu henw dewisol a'u rhagenwau dewisol.

5.5 Swyddog Cydraddoldeb ac Amrywiaeth Myfyrwyr (Cefnogaeth i Fyfyrwyr a Staff)

Gall Swyddog Cydraddoldeb ac Amrywiaeth Myfyrwyr Prifysgol Bangor gynnig cefnogaeth ymarferol ar drawsnewid i fyfyrwyr. Gall unrhyw aelod staff sy'n cael gwybod gan fyfyriwr eu bod yn trawsnewid neu'n dymuno trawsnewid, eu cyfeirio at y Swyddog Cydraddoldeb ac Amrywiaeth Myfyrwyr am gefnogaeth drwy e-bostio inclusive@bangor.ac.uk

Gall y Swyddog Cydraddoldeb ac Amrywiaeth Myfyrwyr hefyd roi cyngor ac arweiniad i staff ar faterion sy'n ymwneud â chefnogi myfyrwyr sy'n trawsnewid neu'n dymuno trawsnewid, a gall fod yn bresennol mewn unrhyw gyfarfodydd y bydd aelodau staff yn eu trefnu gyda myfyriwr i drafod trawsnewid neu eu statws trawsryweddol, os mai dyna yw eu dymuniad.

6. Cefnogaeth

6.1 Swyddog Cydraddoldeb ac Amrywiaeth Myfyrwyr

Gall Swyddog Cydraddoldeb ac Amrywiaeth Myfyrwyr [Prifysgol Bangor](#) gynnig cefnogaeth ymarferol ar drawsnewid i fyfyrwyr. Gall fod yn bwynt cyswllt cyntaf i unrhyw fyfyrwr sy'n dymuno rhoi gwybod i'r brifysgol am drawsnewid neu eu statws trawsryweddol, a gall hefyd fod yn bresennol mewn unrhyw gyfarfodydd y bydd y myfyrwr o bosib yn dymuno eu trefnu gyda'u tiwtor personol. Mewn rhai achosion, gall Tiwtor Personol roi'r dewis i'r myfyrwr wahodd y Swyddog Cydraddoldeb ac Amrywiaeth Myfyrwyr i gyfarfodydd o'r fath fel aelod arbenigol o staff. E-bost inclusive@bangor.ac.uk

Amser i Ffwrdd ar gyfer Apwyntiadau Meddygol

Mae'r brifysgol yn cydnabod y gall myfyrwyr fod angen amser i ffwrdd o'u hastudiaethau oherwydd triniaethau meddygol sy'n ymwneud â thrawsnewid. Mae'n bosib y bydd myfyrwyr yn gallu defnyddio'r drefn amgylchiadau lliniarol os fydd yr amser hwnnw i ffwrdd yn amharu ar eu gallu i gwblhau gwaith a asesir neu sefyll arholiadau. Gall gohirio astudiaethau fod yn bosibilrwydd ond mae'n bwysig deall y goblygiadau ariannol a allai ddeillio o hynny. Yn yr achosion hyn, cynghorir myfyrwyr i siarad â Chynghorydd Cefnogaeth Ariannol yn y [Tîm Cefnogi Myfyrwyr](#) yng Ngwasanaethau Myfyrwyr trwy ffonio 01248 382024.

6.3 Cyfleusterau a Llety

Mae llawer o'r toiledau a'r cyfleusterau newid ar ein campws yn rhyw-benodol, h.y. benywaidd neu wrywaidd. Mae Prifysgol Bangor yn annog myfyrwyr trawsryweddol i ddefnyddio'r toiled y maent yn teimlo'n gyfforddus yn ei ddefnyddio. Mae'r holl doiledau hygyrch yn niwtral o ran rhywedd fel darpariaeth ar gyfer myfyrwyr a staff anabl. Er bod llawer o fyfyrwyr yn defnyddio'r toiledau sy'n disgrifio eu rhywedd hunan-ddiffiniedig orau, rydym yn cydnabod bod yn well gan rai myfyrwyr trawsryweddol ddefnyddio cyfleusterau niwtral o ran rhywedd. O'r herwydd mae darparu cyfleusterau priodol yn cael ei ystyried yn rhan o'r cynlluniau i ddatblygu'r ystâd yn y dyfodol.

Mae'r rhan fwyaf o'n llety yn agored i bobl o bob rhywedd, ond mae rhai manau'n agored i fyfyrwyr sy'n hunan-ddifinio'n fenywaidd yn unig. Mae'n bosib i fyfyrwyr sydd wedi'u cofrestru'n fenywaidd ar system y brifysgol archebu llety ar-lein sy'n agored i fyfyrwyr benywaidd yn unig. Os ydych yn fyfyrwr sydd yn y broses o drawsnewid neu fod eich cofnodion prifysgol yn dal i ddangos eich rhywedd blaenorol a'ch bod yn dymuno gwneud cais i fyw mewn neuadd breswyl sy'n agored i fyfyrwyr benywaidd yn unig, gallwch gysylltu â'n [Swyddfa Neuaddau](#) ar 01248 382667.

6.4 Clybiau Chwaraeon

Mae Clybiau Chwaraeon Prifysgol Bangor yn cael eu rheoli gan [Undeb](#) (Undeb y Myfyrwyr) ac yn agored i bob myfyrwr. Am fwy o wybodaeth, cysylltwch ag Undeb ar 01248 388000 neu undeb@undebbangor.com

BUCS (Chwaraeon Prifysgolion a Cholegau Prydain) yw Corff Llywodraethu Chwaraeon Prifysgol y Deyrnas Unedig. Gwelwch eu [Polisi Trawsryweddol](#) am ragor o wybodaeth am Fframweithiau Cystadleuol BUCS a'u safbwynt ar chwaraeon yr effeithir arnynt gan rywedd a chwaraeon na effeithir arnynt gan rywedd.

7. Herio Aflonyddu ac Agweddau Negyddol

Mae camdriniaeth, aflonyddu neu fwlio trawsffobig (galw enwau/jôcs difriol, ymddygiad annerbyniol neu ddigymell a chwestiynau busneslyd) yn droseddau disgyblu difrifol ac ni fyddant yn cael eu goddef. Mae Prifysgol Bangor yn eich annog yn gryf i adrodd am ymddygiad trawsffobig a bydd yn

cymryd pob cwyn o ddifrif ac yn ymdrin ag adroddiadau o'r fath o dan yr [Ordinhad Disgyblu Myfyrwyr](#). Gall myfyrwyr sydd wedi profi unrhyw fath o aflonyddu gysylltu â'r Swyddog Cydraddoldeb ac Amrywiaeth Myfyrwyr am fwy o wybodaeth, cefnogaeth ymarferol, a chynghor am sut i wneud cwyn ffurfiol i'r brifysgol. E-bost inclusive@bangor.ac.uk

Ni fydd propaganda trawsffobig, ar ffurf deunydd ysgrifenedig, yn cynnwys ar gyfryngau cymdeithasol, graffiti, cerddoriaeth neu areithiau, yn cael eu goddef. Rydym yn ymrwymo i gael gwared ar bropaganda o'r fath pryd bynnag y bydd yn ymddangos ar ystâd y brifysgol.

Mae'r brifysgol wedi ymrwymo i ddatblygu materion sy'n ymwneud â hunaniaeth rywedd yn barhaus a'u cynnwys yn ein Hadnoddau Cydraddoldeb ac Amrywiaeth a'n hyfforddiant i staff a myfyrwyr.

Rydym wedi ymrwymo i ddarparu cyfleusterau priodol i fyfyrwyr trawsryweddol wrth ddatblygu'r ystâd.

Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb o'r Polisi a'r Canllawiau ar Gydraddoldeb i Fyfyrywyr Trawsryweddol

Gan: Helen Munro

Dyddiad: 22^{ain} Mawrth 2019

Amcan y Project
<i>Beth mae'r project yn anelu at ei gyflawni? (Nodwch y canlyniadau a'r manteision ariannol ac/neu anariannol)</i>
Diben y polisi hwn yw cynnig llwybr hwylus a chlir i fyfyrywyr roi gwybod i'r brifysgol eu bod yn trawsnewid neu'n dymuno trawsnewid. Mae'r polisi hwn hefyd yn cynnig arweiniad i'r staff er mwyn iddynt allu cynnig cymorth effeithiol a phrosesau effeithlon i fyfyriwr sy'n trawsnewid.

Teitl y Project	Polisi a Chanllawiau Cydraddoldeb i Fyfyrywyr Trawsryweddol
Arweinydd y Project	Helen Munro
Tîm y Project	Grŵp Trais ar Sail Rhyw (Grŵp Tasg Cydraddoldeb ac Amrywiaeth)

Beth yw effaith y project, y polisi neu'r ymarfer ar bobl sy'n rhannu nodwedd warchoddedig?
<i>O dan y ddyletswydd cydraddoldeb (sydd wedi ei nodi yn Neddf Cydraddoldeb 2010), rhaid i'r brifysgol roi 'sylw dyledus' i'r angen i ddileu gwahaniaethu anghyfreithlon, aflonyddu ac erledigaeth yn ogystal â hyrwyddo cyfle cyfartal a meithrin perthynas dda rhwng pobl sy'n rhannu nodwedd warchoddedig a rhai nad ydynt yn rhannu'r nodwedd honno. Y nodweddion gwarchoddedig sydd yn y ddyletswydd cydraddoldeb yw: oed, anabledd, ailbennu rhywedd, beichiogrwydd a mamolaeth, hil, crefydd neu gred, rhyw a chyfeiriadedd rhywiol. Mae'r ddyletswydd yn ymwneud hefyd â phriodas a phartneriaethau sifil, ond dim ond o ran dileu gwahaniaethu anghyfreithlon. Mae'r gyfraith yn ei gwneud hi'n ofynnol i'r brifysgol ddangos ei bod wedi rhoi 'sylw dyledus' i amcanion y ddyletswydd cydraddoldeb yn ei phrosesau cynllunio a gwneud penderfyniadau. Er nad ydynt yn nodweddion gwarchoddedig o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010, rhaid rhoi sylw dyledus hefyd i effeithiau'r prosesau cynllunio a gwneud penderfyniadau ar ofalwyr. Mae angen rhoi sylw dyledus hefyd i'r iaith Gymraeg o dan Fesur yr Iaith Gymraeg (Cymru) 2011.</i>

Gofynion Dyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus	Manylion yr Effaith (Cadarnhaol/Niwtral/Negyddol)	Tystiolaeth
Dileu Gwahaniaethu <ul style="list-style-type: none"> <i>A yw'r project yn debygol o drin rhywun yn llai ffafriol neu eu rhoi o dan anfantais oherwydd eu nodweddion gwarchoddedig?</i> <i>A allai'r project, y polisi neu'r ymarfer arwain at wahanol ganlyniadau i wahanol grwpiau gwarchoddedig?</i> 	<p>Nid yw'r polisi yn debygol o drin neb yn llai ffafriol na'u rhoi dan anfantais.</p> <p>Bydd y polisi yn arwain at ganlyniadau mwy cadarnhaol ar gyfer pobl drawsryweddol a phobl sy'n ceisio trawsnewid.</p>	<p>Diben y polisi hwn yw cynnig llwybr hwylus a chlir i fyfyrywyr roi gwybod i'r brifysgol eu bod yn trawsnewid neu'n dymuno trawsnewid. Mae'r polisi hwn hefyd yn cynnig arweiniad i aelodau staff er mwyn iddynt allu cynnig cymorth effeithiol a phrosesau effeithlon i fyfyriwr sy'n trawsnewid.</p>

<p>Hyrwyddo Cyfle Cyfartal</p> <ul style="list-style-type: none"> <i>A fydd anghenion y staff a'r myfyrwyr hynny sydd â gwahanol nodweddion gwarchoddedig yn cael eu bodloni?</i> <i>A allai'r project, y polisi neu'r ymarfer arwain at fwy o ymwneud/cyfranogiad gan y grwpiau gwarchoddedig?</i> <i>A oes unrhyw gyfleoedd i fynd ati i hyrwyddo cydraddoldeb ar gyfer grwpiau gwarchoddedig penodol a / neu rhwng grwpiau gwarchoddedig?</i> 	<p>Bydd anghenion staff a myfyrwyr sydd â nodweddion gwarchoddedig gwahanol yn cael eu bodloni oherwydd bod hwn yn bolisi cynhwysol sy'n ceisio creu profiad cadarnhaol ar gyfer myfyrwyr trawsryweddol a rhai sy'n ceisio trawsnewid.</p> <p>Mi wnaiff Polisi Cydraddoldeb i Fyfywyr Trawsryweddol ddangos i fyfyrwyr a darpar fyfyrwyr bod Prifysgol Bangor o ddifrif ynghylch ei hymrwymiad i sicrhau cymuned brifysgol gynhwysol.</p> <p>Bydd y polisi hwn yn rhagweithiol wrth hyrwyddo cydraddoldeb ar gyfer yr holl bobl drawsryweddol a'r rhai sy'n ceisio trawsnewid.</p>	<p>Y polisi.</p>
<p>Hybu Cysylltiadau Da</p> <ul style="list-style-type: none"> <i>A oes camau wedi eu cymryd i fynd i'r afael â rhagfarn a hyrwyddo dealltwriaeth?</i> <i>Sut mae unigolion, grwpiau neu gyrff perthnasol wedi eu cynnwys/wedi cael cyfle i roi eu barn wrth ddatblygu ac asesu effaith y project?</i> 	<p>Mae'r polisi'n nodi'n glir y gweithdrefnau i'r staff ac eraill eu dilyn i greu amgylchedd cynhwysol i bobl drawsryweddol trwy gyflwyno'r Canllawiau Parch Trawsryweddol.</p> <p>Ymgynghorwyd â'r holl randdeiliaid perthnasol wrth ddatblygu'r ddogfen hon ac mae cynrychiolwyr trawsryweddol y myfyrwyr wedi bod yn rhan o'i adolygiad.</p>	<p>Y polisiâu drafft.</p>
<p>Ar sail yr asesiad uchod, pa gamau gweithredu sydd eu hangen?</p>		
<p>Does dim angen newid mawr <i>Nid yw'r asesiad wedi canfod unrhyw botensial i wahaniaethu nac effaith andwyol a chymerwyd pob cyfle i hyrwyddo cydraddoldeb.</i></p>	<p>Does dim angen newid dim.</p>	
<p>Gwneud addasiadau er mwyn diddymu'r rhwystrau neu hyrwyddo cydraddoldeb yn well.</p>	<p>Caiff taflen ei llunio a fydd yn nodi'r prif feysydd polisi ac a gaiff ei hanelu at fyfyrwyr trawsryweddol neu'r rhai sy'n ceisio trawsnewid.</p>	

<p><i>Nodi'r addasiadau a wneir i ddi-ddymu'r rhwystrau sydd wedi eu nodi yn yr asesiad neu i hyrwyddo cydraddoldeb yn well.</i></p>	
<p>Parhau er ei bod yn bosib y bydd effeithiau andwyol neu gollu cyfleoedd i hyrwyddo cydraddoldeb. <i>Nodi'r camau a gaiff eu cymryd i leihau neu i liniaru'r effeithiau andwyol.</i></p>	<p>Dylid trafod y camau gweithredu a'r materion a nodir yma gyda Swyddog Cydraddoldeb yr Adnoddau Dynol cyn bwrw ymlaen. Dim</p>
<p>Aros ac ailfeddwl <i>Mae'r asesiad yn dangos gwahaniaethu anghyfreithlon gwirioneddol neu bosib. Nodi'r camau a gymerir i atal ac/neu ailfeddwl am y project.</i></p>	<p>Dylid trafod y camau gweithredu a'r materion a nodir yma gyda Swyddog Cydraddoldeb yr adran Adnoddau Dynol cyn parhau.</p>

<p>Sut caiff effaith wirioneddol y project, y polisi neu'r ymarfer ei monitro unwaith y caiff ei weithredu?</p>
<p>Caiff y polisi ei adolygu'n flynyddol gan y Swyddog Polisi i nodi unrhyw newidiadau yn y gyfraith neu arfer gorau ym maes cymorth myfyrwyr trawsryweddol. Caiff y polisi ei adolygu'n ffurfiol bob tair blynedd, gan y Grŵp Tasg Cydraddoldeb ac Amrywiaeth.</p>

<p>Cyhoeddi Caiff yr Asesiad Effaith Cydraddoldeb hwn ei gyhoeddi - ochr yn ochr â Pholisi a Chanllawiau Cydraddoldeb Myfyrwyr Trawsryweddol.</p>

Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb o'r Polisi a'r Canllawiau ar Gydraddoldeb i Fyfyrrwyr Trawsryweddol

Gan: Helen Munro

Dyddiad: 22^{ain} Mawrth 2019

Amcan y Project
<i>Beth mae'r project yn anelu at ei gyflawni? (Nodwch y canlyniadau a'r manteision ariannol ac / neu anariannol)</i>
Diben y polisi hwn yw cynnig llwybr hwylus a chlr i fyfyrwyr roi gwybod i'r brifysgol eu bod yn trawsnewid neu'n dymuno trawsnewid. Mae'r polisi hwn hefyd yn cynnig arweiniad i'r staff er mwyn iddynt allu cynnig cymorth effeithiol a phrosesau effeithlon i fyfyrwr sy'n trawsnewid.

Teitl y Project	Polisi a Chanllawiau Cydraddoldeb i Fyfyrrwyr Trawsryweddol
Arweinydd y Project	Helen Munro
Tîm y Project	Grŵp Trais ar Sailedd Rhyw (Grŵp Tasg Cydraddoldeb ac Amrywiaeth)

	Manylion yr Effaith (Cadarnhaol / Niwtral / Negyddol)	Tystiolaeth
<i>Sut mae'r polisi hwn yn dangos ymrwymiad i egwyddorion cynaliadwyedd y Brifysgol, yn cynnwys camau gweithredu, graddfeydd amser, hyfforddiant i fyfyrwyr a staff, a goblygiadau o ran adnoddau lle bo'n berthnasol?</i>	Mae'n nodi hyd a lled yr heriau cymdeithasol, ac yn eu gwneud yn weladwy i eraill Mae'n cymryd perchnogaeth o'r heriau sy'n wynebu myfyrwyr trawsryweddol ac yn sicrhau bod ystyriaeth hirdymor briodol yn cael ei rhoi i'r heriau hynny ac yn rhoi atebion ar waith sy'n gwella profiad y myfyrwyr. Mae'n gwerthfawrogi barn myfyrwyr trawsryweddol a'r aelodau o'r staff sy'n ymwneud â'u cefnogi. Mae'n codi ymwybyddiaeth o'r heriau cyffredin y mae myfyrwyr trawsryweddol yn eu hwynebu ac yn meithrin amgylchedd o ddealltwriaeth a dysgu.	Y ddogfen bolisi.
<i>Gyda phwy y buoch chi'n gweithio i ddatblygu'r polisi hwn (yn y brifysgol ac yn allanol)?</i>	Y Grŵp Trais ar Sail Rhywedd a'r Grŵp Tasg Cydraddoldeb ac Amrywiaeth sy'n cynnwys rhanddeiliaid allweddol ledled y Brifysgol gan gynnwys Undeb y Myfyrwyr. Mae myfyrwyr trawsryweddol wedi cael eu cynnwys yn y gwaith	Grŵp Trais ar Sail Rhywedd Grŵp Tasg Cydraddoldeb ac Amrywiaeth

	o ddatblygu'r polisi ac maent wedi parhau'n rhan hanfodol ohono.	
<i>Sut mae'r polisi'n cael ei fonitro o ran cynaliadwyedd?</i>	Caiff cynaliadwyedd y polisi ei fonitro'n flynyddol fel rhan o adolygiad polisi ehangach, gan Swyddog Cydraddoldeb ac Amrywiaeth y Myfyrwyr.	Y ddogfen polisi
Ar sail yr asesiad uchod, pa gamau gweithredu sydd eu hangen?		
Does dim angen newid mawr		✓
Gwneud addasiadau er mwyn diddymu'r rhwystrau neu hyrwyddo cynaliadwyedd yn well		
Parhau er ei bod yn bosib y bydd effeithiau andwyol neu golli cyfleoedd i hyrwyddo cynaliadwyedd.		
Aros ac ailfeddwl		

Sut caiff effaith wirioneddol y project, y polisi neu'r ymarfer ei monitro unwaith y caiff ei weithredu?
Caiff y polisi ei adolygu'n flynyddol gan y Swyddog Polisi i nodi unrhyw newidiadau yn y gyfraith neu arfer gorau ym maes cymorth myfyrwyr trawsryweddol. Caiff y polisi ei adolygu'n ffurfiol bob tair blynedd, gan y Grŵp Tasg Cydraddoldeb ac Amrywiaeth.

Cyhoeddi
Caiff yr Asesiad Effaith Cydraddoldeb hwn ei gyhoeddi - ochr yn ochr â Pholisi a Chanllawiau Cydraddoldeb Myfyrwyr Trawsryweddol.